**Cyfeirnod:** IR863

**Dyddiad cyhoeddi:** 15 Mawrth 2023

# Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Weithredwr GIG Cymru parthed Effeithiolrwydd Bwrdd BIPBC

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 02 Mawrth 2023 yn gofyn am gopi o lythyr a anfonwyd yn gwbl gyfrinachol oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gyfarwyddwr Cyffredinol GIG Cymru mewn perthynas â'r Adroddiad er Budd y Cyhoedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar Effeithiolrwydd y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Gweler gopi wedi'i atodi o'r llythyr y gofynnwyd amdano.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â mi'n ddiymdroi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Heol y Gadeirlan / 24 Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff
CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 2032 0500
Ffacs / Fax: 029 2032 0600
Ffôn testun / Textphone: 029 2032 0660

Ms Judith Paget CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Cyfeirnod:** AC/348/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Chwefror 2023

Annwyl Judith

# Adolygiad Archwilio Cymru o Effeithiolrwydd y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Rwy'n atodi copi dan embargo o adroddiad sy'n nodi canfyddiadau fy adolygiad brys o effeithiolrwydd y bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n rhoi darlun pryderus iawn o gamweithredu mewn sawl perthynas waith ar lefel uchaf y Bwrdd Iechyd. Mae'r camweithredu hwn yn peryglu gallu'r bwrdd i weithio mewn modd unedig a chydlynol i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol, ac mewn llawer o achosion, hirsefydlog y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

Mae'r adolygiad wedi nodi nifer o feysydd uniongyrchol ar gyfer camau gweithredu. Fodd bynnag, mae maint yr anawsterau a ddatgelwyd wedi peri i fy nhîm adolygu ddod i'r casgliad nad yw'r bwrdd yn debygol o allu mynd i'r afael â nhw heb ryw fath o gymorth neu ymyrraeth allanol. Mae angen ymyrraeth o'r fath fel mater o frys i sicrhau y gall y bwrdd gyflawni ei swyddogaethau'n iawn. I ategu hyn bydd angen mynd i'r afael â'r rhaniadau sy'n amlwg yn y Tîm Gweithredol, a symud at fodel o graffu a herio gan Aelodau Annibynnol sy'n briodol gadarn heb fod yn elyniaethus ac yn wrthwynebus.

Roedd y nifer fawr o ddatgeliadau chwythu'r chwiban a gyflwynwyd gan wahanol bartïon o fewn y Bwrdd Iechyd a chynnwys y datgeliadau hynny, ymhlith y pryderon a ysgogodd fy adolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd o ystyried yr effaith ansefydlogi ddifrifol y maent yn ei chael ar y bwrdd. Rwy'n ymwybodol bod y datgeliadau wedi bod yn destun ymchwiliad annibynnol cyflym y bu i Lywodraeth Cymru ei hwyluso. Gan nodi'r sensitifrwydd, cymhlethdodau a choreograffi penodol sydd eu hangen wrth gwblhau'r gwaith hwn, mae'n bwysig serch hynny fod yr ymchwiliadau hyn yn dod i ben mor gyflym â phosibl ynghyd ag unrhyw gamau dilynol sydd eu hangen i wella a sefydlogi

trefniadau arweinyddiaeth yn y Bwrdd Iechyd. Yn yr un modd, mae fy adroddiad yn pwysleisio'r angen dybryd i ddatrys unrhyw faterion sy'n codi o ymchwiliadau parhaus y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Cenedlaethol, adolygiad Ernst Young a fy archwiliad o gyfrifon 2021/22.

Mae fy nhîm wedi cadw mewn cysylltiad agos â swyddogion yn eich adran trwy gydol ein hadolygiad, yn unol â'n trefniadau gweithio teirochrog presennol. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau bod ymwybyddiaeth ar y cyd o'r gwahanol ffrydiau o waith adolygu sydd ar y gweill mewn ymateb i bryderon sylweddol presennol yn y Bwrdd Iechyd. Deallaf y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ysgrifenedig ddydd Llun 27 Chwefror a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau i statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd a chamau gweithredu cysylltiedig ychwanegol y bernir eu bod yn briodol o dan yr amgylchiadau. Rwy'n bwriadu cyhoeddi'r adroddiad ynghlwm ddydd Iau 23 Chwefror. O ystyried natur a difrifoldeb y materion sy'n codi o fy ngwaith, rwyf wedi penderfynu defnyddio fy mhwerau adrodd er budd y cyhoedd i sicrhau bod canfyddiadau fy ngwaith ar gael i gynulleidfa ehangach. Fel rhan o'r broses gyhoeddi, bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei osod yn Swyddfa Gyflwyno'r Senedd.

Rwy'n sylweddoli bod maint yr anawsterau y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn cynrychioli tir dieithr i'r GIG yng Nghymru, a gobeithiaf fod fy ngwaith wedi bod yn ddefnyddiol wrth roi mewnwelediad pellach i'r problemau a'r camau gweithredu hynny sydd eu hangen i'w datrys. Bydd fy nhîm, wrth gwrs, yn parhau i gysylltu'n agos â swyddogion Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i rannu gwybodaeth sy'n deillio o'n gwaith fel rhan o'r trefniadau teirochrog. Byddwn hefyd yn sicrhau eich bod yn cael golwg ymlaen llaw ar y datganiad i'r cyfryngau a gyhoeddir i gyd-fynd â'r adroddiad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi'n uniongyrchol neu drwy Dave Thomas sydd wedi arwain tîm Archwilio Cymru i ymgymryd â'r gwaith.

Yn gywir

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**